

Hawlio Eich Grant

Bydd taliadau o'ch grant yn dibynnu ar faint eich grant a hyd eich prosiect.

Rhaid cael y canlynol i allu anfon taliadau:

- **Derbyn y Grant** – rhaid ichi wneud hyn cyn pen 4 wythnos weithiol ar ôl dyddiad y llythyr cynnig. Os nad ydych chi'n derbyn y cynnig yn y 4 wythnos weithiol yma, byddwn ni'n tynnu'r grant yn ôl. Mae'r ffurflen dderbyn grant ar ddau dudalen olaf eich llythyr cynnig
- **Amodau'r Grant** – mae'n bosibl y bydd amodau grant ar gyfer rhai taliadau. Dylech chi anfon unrhyw dystiolaeth neu ddogfennau sy'n ofynnol gan yr amodau at eich swyddog yn y Cyngor

Cyn gynted ag rydych chi wedi dychwelyd eich llythyr derbyn grant ac wedi bodloni unrhyw amodau, byddwn ni'n gwneud taliadau fel hyn:

£5,000 a llai

Byddwn ni'n talu eich grant mewn un swm mis cyn dyddiad cychwyn eich prosiect

£5,001 hyd at £20,000

Byddwn ni'n talu eich grant mewn 2 daliad:

- 90% wedi'i dalu fis cyn dyddiad cychwyn eich prosiect
- 10% ar ôl inni adolygu eich adroddiad diweddu a'i gymeradwyo

Dros £20,000 ond gyda hyd y prosiect yn fyrrach na 6 mis

Byddwn ni'n talu eich grant mewn 2 daliad:

- 90% wedi'i dalu fis cyn dyddiad cychwyn eich prosiect
- 10% ar ôl inni adolygu eich adroddiad diweddu a'i gymeradwyo

Dros £20,000 ond gyda hyd prosiect yn hwy na 6 mis

Byddwn ni'n talu eich grant mewn 3 thaliad:

- 45% wedi'i dalu fis cyn dyddiad cychwyn eich prosiect

- 45% wedi'i dalu tua hanner ffordd drwy eich prosiect
- 10% ar ôl inni adolygu eich adroddiad diweddu a'i gymeradwyo

Adroddiadau Cwblhau

Rhaid ichi gyflwyno adroddiad diweddu cyn pen mis o ddiwedd eich prosiect. Byddwn ni'n cysylltu â chi fis cyn i'ch prosiect ddod i ben i'ch atgoffa bod yn rhaid ichi fewngofnodi a llenwi'r ffurflen. Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu eich Swyddog yng Nghyngor y Celfyddydau Cyngor am unrhyw newidiadau i ddyddiad gorffen eich prosiect.

Ar ôl inni dderbyn eich adroddiad a'i gymeradwyo, byddwn ni'n talu unrhyw daliadau terfynol. Cofiwch, mae'n bosibl byddwn ni'n lleihau eich taliad terfynol neu'n hawlio arian yn ôl oddi wrthyh, bydd hyn yn dibynnu ar werthusiad eich adroddiad cwblhau.